# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 3 E+W

ETHOLIADAU

*Cofrestru etholiadol*

VALID FROM 01/06/2020

### 15 Gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed E+W

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am wahoddiadau i'w rhoi o dan adran 9E(1) o Ddeddf 1983 (gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru) mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—

- (a) ynghylch ffurf a chynnwys gwahoddiadau;
- (b) ynghylch sut a phryd y mae'n rhaid rhoi gwahoddiadau;
- (c) sy'n ei gwneud yn ofynnol bod ffurflenni cais neu ddogfennau eraill (gan gynnwys ffurflenni cais a gwblhawyd yn rhannol) yn cyd-fynd â gwahoddiadau, neu'n cael eu cyfuno â gwahoddiadau.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) roi swyddogaethau i'r Comisiwn Etholiadol (er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i'r Comisiwn ddylunio gwahoddiad).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, diddymu (neu ddirymu) neu addasu unrhyw ddeddfiad.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/05/2020. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Adran 15. (See end of Document for details)*

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyfryw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 mewn grym ar 1.6.2020, gweler **a. 42(3)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/05/2020. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Adran 15.